**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR 2025, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Richard Robinson, Ann Lawton, Colin Swatridge, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Beca Brown

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Rhys Parry, Berwyn Parry Jones, Cemlyn Jones, Alan Pritchard

**Hefyd yn Bresennol:** Lingo Cyf – Gwasanaeth cyfieithu

**Clerc:** Meirion Jones

**1538. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1539 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1540. Datgan buddiant.**

Cynghorydd Ann Lawton yn eitem 1544( a) ar sail buddiant personol a rhagfarnllyd ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

**1541. I dderbyn cofnodion cyfarfod 18 Tachwedd 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1542. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Eitem 1533 – adroddwyd fod ymateb wedi dod oddiwrth Cyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oedd bws yn mynd o Llanrug i Waunfawr drwy Ceunant ond fod bysiau yn mynd yn uniongyrchol o Llanrug i Waunfawr drwy Gaernarfon

**1543. I dderbyn diweddariad ar y gystadleuaeth addurno tŷ Nadolig 2025**

Adroddwyd fod y gystadleuaeth wedi denu 24 o ymgeiswyr a bod y gwobrau fel a ganlyn

1af - Pant Gwyn, Ffordd Minffordd, Llanrug
2ail – 42 Bro Rhythallt, Llanrug
3ydd – 20 a 21 Dolafon, Cwm y Glo

**1544. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.** **https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0651/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig. Full planning application for 17 affordable dwellings, together with creating new vehicle access and an internal entrance road, closing 2 existing agricultural access points, creating new access to serve a new sub-station, extension works to Glanffynnon Road along with landscaping, drainage, and other related works.
**Ymgeisydd:** (Adra)
**Asiant:** Mr Sion Roberts (Cadnant Planning)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253645.89838832873, 363055.38469775394
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod Ionawr er gallu cael manylion arolwg traffig

Daeth y cyfarfod i ben am 19:20

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: